PWYLLGOR PENODIADAU - CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL, YSTADAU SIROL

DYDD LLUN, 21 MEDI 2020

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Huw Thomas(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Goodway, Gavin Hill-John, Hopkins a/ac Merry |

14 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB (OS OES RHAI)

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

15 : DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

16 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y Pwyllgor rhestr fer a gynhaliwyd ar 14 Medi 2020 fel cofnod cywir.

17 : CYLCH GORCHWYL

Cyflawni swyddogaethau’r awdurdod o ran penodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion (fel y’u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â’r Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol y Cyngor.

18 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem busnes ganlynol ar y sail, pe byddai aelodau’r cyhoedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i’w drafod, datgelid iddynt wybodaeth a eithrir fel y’i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y’i diffinnir isod:-

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy’n berthnasol i ymgeisydd yn dod yn gyflogai’r Awdurdod; a

Pharagraff 13 - Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn.

19 : PENODI CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL YSTADAU’R SIR

Cynullwyd y Pwyllgor i gyfweld â'r ddau ymgeisydd ar y rhestr fer a gyflwynwyd gan y Pwyllgor ar 14 Medi 2020 ar ôl ystyried canlyniadau'r Ganolfan Asesu.

Fel rhan o'r broses gyfweld, gwnaeth pob ymgeisydd gyflwyniad 10 munud a rhoddwyd cyfle i'r Aelodau holi a chwestiynu cynnwys y cyflwyniad.   Dilynwyd hyn gan gyfres ffurfiol o gwestiynau a dau gwestiwn gorfodol.

Ar ddiwedd y broses gyfweld, trafododd y pwyllgor berfformiad pob ymgeisydd yn erbyn y cymwyseddau a'r ymatebion enghreifftiol.

Cytunodd y Pwyllgor eu bod yn gallu penodi i swydd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ystadau Sirol.

PENDERFYNWYD:

1. Penodir Ms Donna Jones yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol Ystadau Sirol ar y cyflog sy'n gysylltiedig â'r swydd a'r dyddiad cychwyn i'w gytuno gyda'r ymgeisydd yn unol â'r cyfnod ymddiswyddo a chwblhau'r broses benodi gan y Cyngor; a

Cynhaliwyd y broses ddethol yn unol â'r broses benodi ac roedd pob ymgeisydd wedi cael ei drin yn gyfartal ac yn deg. Yr ymgeisydd llwyddiannus i'w benodi ar sail teilyngdod.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45 am